



Open Doors Dyfed

ABERAERON  
New in 2009

**Buildings to visit**  
12 Sep/Medi, 12-3

- **Aberaeron Comprehensive School** [Map](#)
- **Aberaeron Masonic Lodge, North Road**
- **Holy Trinity Church, Bridge Street**
- **Peniel Chapel, Water Street**
- **Tabernacle Chapel, Tabernacle Street**
- Tea is served in **Aberaeron Comprehensive School** and tours of the school building will be offered

#### Events

- Guided Aberaeron **Town Trails**, start and finish at the Aberaeron Tourist Information office, Quay Parade, at 10.30, 12.30, 2.30 and 4.30. Tours take approximately 1 hour.
- **Old Buildings Matter** a panel of national and local experts will answer your questions on caring for our built heritage in an Any Questions style session, 2 – 4 Peniel Chapel Vestry, Water St. Refreshments will be served.
- Aberaeron **2009 Exhibition Land and Sea** opens its doors for the last time this summer from 11 – 4, in Tabernacle Vestry, Tabernacle St.

Vouchers for discounts and concessions with local businesses can be collected from the Exhibition.

ABERAERON  
Newydd yn 2009

**Adeiladau i'w hymweld**  
12 Sep/Medi, 12-3

- **Ysgol Uwchradd Aberaeron** [Map](#)
- **Cyfrinfa Fasonaidd Aberaeron, North Road**
- **Eglwys y Drindod Sanctaidd, Bridge Street**
- **Capel Peniel, Water Street**
- **Capel y Tabernacl, Tabernacle Street**
- Ceir te yn **Ysgol Uwchradd Aberaeron** ac fe fydd teithiau o adeilad yr ysgol ar gael.

#### Digwyddiadau

- **Teithiau Tywys** o dref Aberaeron, fydd yn cychwyn ac yn gorffen yn y swyddfa Wybodaeth i Dwristiaid Aberaeron, Quay Parade, am 10.30, 12.30, 2.30 a 4.30. Fe fydd teithiau'n cymryd tuag 1 awr.
- **Old Buildings Matter:** fe fydd panel o arbenigwyr cenedlaethol a lleol yn ateb eich cwestiynau ar sut i ofalu am ein treftadaeth adeiledig mewn sesiwn yn steil Unrhyw Gwestiynau, 2-4 Festri Capel Peniel, Water St. Fe fydd lluniaeth ar gael.

- Aberaeron Fe fydd **2009 Exhibition Land and Sea** yn agor ei drysau am y tro olaf yr haf hwn, o 11-4, yn Ffestri'r Tabernacl , Tabernacle St.

Dim ond o'r Arddangosfa'n unig y gellir casglu tocynnau ar gyfer gostyngiadau a chonsesiynau gyda busnesau lleol.

#### **Llanerchaeron, Ciliau Aeron**

**12 Sep** (National Trust) 18c Welsh gentry estate with house, walled gardens and home farm. Designed and built by John Nash. **LOC** [SA48 8DG](#)

#### **Llanerchaeron, Ciliau Aeron**

**12 Medi** (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) Ystâd Gymreig o'r 18g gyda thŷ, gerddi muriog a fferm gartref. Fe'i dyluniwyd ac fe'i hadeiladwyd gan John Nash. **LLEO** [SA48 8DG](#)

#### **AMROTH**

#### **Colby Woodland Garden, Nr Amroth**

**12 Sep 10-5** A National Trust site. Beautiful woodland garden with year-round interest. One of the best collections of rhododendrons and azaleas in Wales. Open and wooded pathways through the valley offer lovely walks. Set in a tranquil and secluded valley. Ongoing opening of new vistas and pathways along with widespread new planting for greater access and enjoyment. New map of estate woodland walk. **LOC** [SA67 8PP](#) contact property for route map 01834 811885 — follow brown sign from A477 Tenby-Carmarthen road or off coast road at Amroth Castle. **DIS** Set in a steep sided valley. Grounds partly accessible for wheelchairs. Map of accessible route available from admission point.

#### **Gardd Goetir Colby, Amroth**

**12 Medi 10-5** Safle'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Gardd goetir hardd sydd â rhywbeth o ddiddordeb i'w gynnig drwy gydol y flwyddyn. Mae yma un o'r casgliadau gorau o rododendronau ac asaleas yng Nghymru. Mae llwybrau agored a choediog drwy'r dyffryn yn cynnig teithiau cerdded hyfryd. Mae golygfeydd a llwybrau newydd yn cael eu hgor ynghyd â gwaith plannu newydd eang er mwyn cynnig gwell hygyrchedd a mwynhad. Map newydd o daith gerdded goetir yr ystâd. **LLEO** [SA67 8PP](#) cysylltwch â'r eiddo am fap trywydd. 01834 811885 - dilynwch yr arwydd brown o'r A477 ffordd Dinbych-y-pysgod-Caerfyrddin neu oddi ar y ffordd arfordirol yng Nghastell Amroth. **ANB** Ar ochr cwm serth. Mae'r tiroedd yn rhannol hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae map o drywydd hygyrch ar gael o'r pwynt mynediad.

#### **CARDIGAN/ABERTEIFI**

#### **Cilgerran Castle**

**12 Sep** (National Trust/CADW) Striking 13c castle overlooking Teifi Gorge **LOC** SA43 2SF

#### **Castell Cilgerran**

**12 Medi** (Ymddiriedolaeth Genedlaethol/CADW) Castell trawiadol o'r 13g sy'n edrych dros Geunant Teifi **LLEO** SA43 2SF

#### **St Mary's Church**

**Every day in September** Built in the 12c by Benedictine monks whose priory was next door, its fine chancel, rebuilt in the 15c, is a superb example of the Decorated style, with many surviving original features. The three-storey west tower was rebuilt in the 18c. Many gravestones relate to the town's maritime past. [MAP](#)

#### **Eglwys y Santes Fair, Aberteifi**

**Pob dydd drwy mis Medi** Adeiladwyd yn y 12G gan fynachod Benedictaidd a oedd â'u prioryd y drws nesaf. Mae'r gangell hardd, a ailadeiladwyd yn y 15G, yn enghraifft wych o'r dull Addurniadol, a nifer o nodweddion

gwreiddiol wedi goroesi. Ailadeiladwyd y twr trillawr gorllewinol yn y 18G. Mae nifer o'r cerrig beddau'n gysylltiedig â gorffennol morwrol y dref. [MAP](#)

### **Holy Cross Church, Mwnt**

**Daily in September** A single-cell church of medieval origin with connections to the 6c saints. The font is of porphyritic stone found in the Preseli hills. This was a stopping place for vigil over the bodies of saints for pilgrims on their way to Bardsey Island/Ynys Enlli. [Map](#) Next to Mwnt beach. Fully accessible.

### **Eglwys y Grog, Mwnt**

**Pob dydd drwy mis Medi** Eglwys un gell o'r oesau canol sydd â chysylltiadau a seintiau'r 6G. Mae'r bedyddfaen o garreg borffyrig sydd i'w chael ar fynyddoedd Preseli. Roedd hwn yn fan aros i bererinion ar eu ffordd i Ynys Enlli i gadw gwylnos dros gyrff y seintiau. [Map](#) Ger traeth Mwnt. Dim problem mynediad

### **St Cynllo, Llangoedmor**

**Throughout Sep** Set on a beautiful site in a wooded valley, the church is listed grade II\*. The building is unusual in having a nave and chancel of near equal length. The central steeple is an extraordinary miniature version of a Wren spire, done in local Cilgerran stone, and tinged with Greek revival detail Wren would never have used! Other interesting features; a lovely place to spend some time. [Map](#) SA43 2LH fully accessible

### **St Cynllo, Llangoedmor**

**Pob dydd drwy mis Medi** Eglwys ar lecyn hardd mewn dyffryn coediog, ac yn rhestredig Gradd II\*. Adeilad anghyffredin gan fod y corff a'r gangell bron o'r un hyd. Mae'r twr canolog yn fersiwn llai rhyfeddol o dwr fel rhai Wren, mewn carreg Cilgerran, gydag arlliw o'r adferiad Groegaidd - na fyddai fyth wrdd fodd Wren! Nodweddiion diddorol eraill; lle hyfryd i dreulio orig. [Map](#) SA43 2LH Dim problem mynediad.

## FISHGUARD/ABERGWAUN

### **St Brynach, Pontfaen, Fishguard**

**Daily in September** On the wooded slopes above the mysterious Gwaun Valley stands a tiny church dedicated to the 6th century St Brynach. Two 6-9th century pillar stones with inscribed Latin crosses (perhaps near-contemporary with the Saint himself) stand in the circular churchyard, a characteristic feature of the earliest Christian settlements in Pembrokeshire, like Llanstinan. **LOC** [map](#)  
If the church is locked, a key can be obtained from Gwenda Morgan at the village post office.

### **Sant Brynach, Pontfaen, Abergwaun**

**Pob dydd ym mis Medi** sy'n cael ei ddilyn gan luniaeth. Ar y llethrau coediog uwch ben rhyfeddod Cwm Gwaun fe saif eglwys fechan wedi'i chysegru i'r sant o'r 6ed ganrif, Brynach. Mae dau golofnfaen o'r 6-9 ganrif gyda chroesau Lladin arysgrifenedig (efallai'n dod o fwy neu lai'r un cyfnod â'r Sant ei hun) i'w gweld mewn mynwent gron, yn nodweddiadol o'r anheddau Cristnogol cynharaf yn Sir Benfro, fel Llanstinan. **LLEO** [map](#)

Image © Copyright [ceridwen](#) and licensed for reuse under this [Creative Commons Licence](#)

## HAVERFORDWEST/HWLFFORDD

### **The Augustinian Priory | new site 2009**

**Open throughout September; 20 Sep, 12, 3 Talks by Mark Muller** Within 100 years of its beginning in 1110AD, Haverfordwest boasted three fine churches, all three under the control of a fourth religious foundation that had a church all of its own. This was the Augustinian Priory, now a noble ruin and one of the town's greatest treasures. At 12noon and 3pm, Mark Muller of Haverfordwest Civic Society will tell the story of the Priory, drawing upon, among other sources, the findings of Cadw's archaeological excavations in the 1990's. [Map](#)  
Quay Street/Union Hill **DIS** Uneven ground and steps

### Y Priordy Awstinaidd | safle newydd 2009

**Ar agor trwy gydol mis Medi; 20 Medi, 12, 3 Sgysiau gan Mark Muller** O fewn 100 mlynedd o'i ddechreuad yn 1110AD, roedd gan Yr Hwlfordd dair eglwys hyfryd, y cyfan o dan reolaeth pedwerydd sefydliad crefyddol oedd ag eglwys ei hun. Y Priordy Awstinaidd oedd hwn, sydd yn adfail erbyn hyn, ac yn un o drysorau mwyaf y dref. Am hanner dydd a 3yh, fe fydd Mark Muller o Gymdeithas Ddinesig Yr Hwlfordd yn adrodd stori'r Priordy, ac yn tynnu sylw at, ymysg ffynonellau eraill, darganfyddiadau cloddfeydd archeolegol Cadw yn y 1990au. **LLEO** [Map](#) Quay Street/Union Hill **ANB** Tir anwastad a grisiau

LAMPHEY

### Hodgeston Church

(Friends of Friendless Churches)

**5, 6, 12, 13, 19, 20, 26, 27 September 9-7** Owned by the Friends since 2000, a largely medieval church with a striking western tower. Mainly important for mid 14c carved work in the chancel, including a sedilia where the priest would sit during the service and the piscina where he would wash his hands and the communion cups. The font is Norman. The newly introduced choir stalls are the work of WD Caroe and came originally from St David's, Exeter. [Map](#) Grassy paths, minor step to porch; inner door.

### Eglwys Hodgeston

(Cyfeillion Eglwysi Di-Gyfeill)

**5, 6, 12, 13, 19, 20, 26, 27 Medi 9-7** Eglwys ganoloesol gyda thŵr gorllewinol trawiadol, yn eiddo i'r Cyfeillion ers 2000. Ei nodwedd bwysicaf yw gwaith cerfio yn y gangell ganol o'r 14G, gan gynnwys sedilia lle'r eisteddai'r offeiriad yn ystod y gwasanaeth, a phiscina lle y golchai ei ddwylo a llestri'r cymun. Bedyddfaen Normanaidd. Seddai côr newydd i'r lle o waith W D Caroe, yn wreiddiol o Eglwys Sant David, Caerwysg. [Map](#) Llwybrau gwelltog, gris cymedrol yn y porth; drws mewnol 3 troedfedd o led.

LLANDEILO

### Aberdeunant, Taliaris

**12 Sep** (National Trust) Traditional Carmarthenshire farmhouse in an unspoilt setting. **BOOK** Contact NT for access arrangements (01558 650177) **LOC SA19 6DL**

### Aberdeunant, Taliaris

**12 Medi** (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) Ffermyd traddodiadol Sir Gaerfyrddin mewn lleoliad sydd heb ei ddifetha. **BWCIO** Cysylltwch â NT ar gyfer trefniadau mynediad (01558 650177) **LLEO SA19 6DL**

### Dinefwr Park and Castle | new site 2009

**12 Sep** (National Trust) 12c castle, historic house and 18c landscape park. Scenic walks, Exhibition, tea-room **LOC SA19 6RT.**

### Parc a Chastell Dinefwr | safle newydd 2009

**12 Medi** (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) Castell o'r 12g, tŷ hanesyddol a pharc tirwedd o'r 18g. Teithiau cerdded golygfaol. Arddangosfa, ystafell de **LLEO SA19 6RT.**

### Llandeilo Chapel Architecture and History | new site 2009

**26 Sep tours from Shire Hall 2, 3, 4 lecture 7.30** This a collaborative project, by the Llandeilo and District Civic Trust Society and the Town Council of Llandeilo and offers visitors guided tours of Llandeilo town and its buildings. Meet at Shire Hall, Carmarthenshire for a brief introduction in the Town Council's Council Chambers, followed by a guided walk through town, viewing the exteriors of the the former English Congregational Chapel on George Street, the former Wesleyan Methodist Chapel in Latimer Road and the former Horeb Chapel on Rhosmaen Street, Ebenezer Baptist Chapel in Crescent Road, Capel Newydd Congregational Chapel

in Crescent Road, Salem Calvinistic Methodist Chapel, in New Road. Arrangements are being made for Open Doors guided visits to some Non-Conformist Chapels and information leaflets outlining architectural features and chapel history will be provided. There will also be a public lecture at 7.30pm about Chapel History at the Shire Hall. **LOC** [map](#)

### **Pensaernïaeth a Hanes Capeli Llandeilo | safle newydd 2009**

**26 Medi teithiau o Neuadd y Sir 2, 3, 4 darlith 7.30.** Prosiect ar y cyd yw hwn, gan Gymdeithas Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo a'r Cylch a Chyngor Tref Llandeilo, sy'n cynnig teithiau tywys i ymwelwyr o dref Llandeilo a'i hadeiladau. Dewch i gyfarfod yn Neuadd y Sir, Sir Gaerfyrddin, am gyflwyniad byr o Siambrau'r Cyngor, a fydd yn cael ei ddilyn gan daith gerdded tywys trwy'r dref, gan edrych ar du allan i'r cyn Gapel Annibynnol Saesneg ar George Street, y cyn Gapel Methodist Wesleidd yn Latimer Road a Chapel Horeb gynt ar Rhosmaen Street, Capel Bedyddwyr Ebeneser yn Crescent Road, Capel Annibynnol Capel Newydd yn Crescent Road, a Chapel Methodistiaid Calfinaidd Salem yn New Road. Mae trefniadau ar y gweill i ganiatáu i deithiau tywys Agor Drysau i ymweld â rhai Capeli Anghydfurfiol, ac fe fydd taflenni gwybodaeth sy'n tynnu sylw at nodweddion archeolegol a hanes y capeli yn cael eu darparu. Hefyd, fe fydd darlith gyhoeddus ynghylch hanes y Capel yn cael ei chynnal yn Neuadd y Sir am 7.30yh.

LLEO [map](#)

LLANWRDA

### **Dolaucothi Goldmines, Pumsaint, Llanwrda Dyfed**

**12 September 10-5 A** [National Trust](#) site, these unique Roman gold mines are set amid wooded hillsides with splendid views of the beautiful Cothi Valley and three estate walks. LOC SA19 8US Between Lampeter and Llanwrda on A482. **Dis** Please tel. for advice 01558 650177.

### **Mwyngloddiau Aur Dolaucothi, Pumsaint**

**12 Medi 10-5** Mwynglawdd aur Rhufeinig unigryw wedi ei osod ymysg llechweddi coediog. Cyfleoedd i brofi'r rhwystredigaeth o chwilio am aur. Golygfeydd hyfryd o Gwm Cothi hyfryd a tair taith gerdded o amgylch yr ystadau. Arddangosfa ar hanes cloddio. **LLEO** [SA19 8US](#), 8m o Lanwrda ar yr A482. **ANB** Ffoniwch am gyngor 01558 650177

LLECHRYD

### **St David, Manordeifi**

(Friends of Friendless Churches)

**5, 6, 12, 13, 19, 20, 26, 27 Sep 9 – 7** Largely medieval structure of organic form from 13-15c with tower and bellcote. Chiefly celebrated for complete Georgian interior with open back pews for the poor, box pews for the richer. Important series of wall tablets of great artistic quality and a set of 18 and 19C tombs in the churchyard with surviving railings, all recently repaired by the Friends. [MAP](#) Prominently situated on the banks of the river opposite Llechryd. Access via churchyard path with narrow step up to gain entry. Parking on road possible.

### **Eglwys Dewi Sant, Manordeifi**

(Cyfeillion Eglwysi Di-Gyfeill)

**5, 6, 12, 13, 19, 20, 26, 27 Medi 9 – 7 Adeilad** canoloesol yn bennaf ar ffurf organig o'r 13-15G gyda thŵr a cholomendy. Enwogrwydd yn bennaf am y tu fewn Sioraidd gyda seddi di-gefn i'r tlodion, seddau caeedig i'r mwy cefnog. Cyfres bwysig o goflechi cain ar y muriau a chyfres o feddrodau C18 a C19 yn y fynwent, gyda'r rheiliau gwreiddiol, i gyd wedi eu trwsio'n ddiweddar gan y Cyfeillion. [MAP](#) Mewn lle amlwg ar lannau'r afon gyferbyn â Llechryd. Mynediad trwy'r fynwent, ar lwybr gyda gris gul i fyny ar y diwedd. Parcio'n bosib ar y ffordd.

NEVERN/NYFER

### **St Andrew, Bayvil**

#### **(Friends of Friendless Churches)**

**12, 13 Sep 10 – 5** A delightful late Georgian chapel with 12c font, original pulpit, painted box pews and coffin bier. Bayvil is signposted at end of a “no through road” country lane, 6m W of Cardigan off B4582 and near to Nevern. Accessed across a large church yard which is entered by a stile.

### **Eglwys Sant Andreas, y Beifil**

#### **(Cyfeillion Eglwysi Di-Gyfeill)**

**12, 13 Medi 10-5** Capel Sioraidd hwyr dymunol gyda bedyddfaen 12G, pulpud gwreiddiol, seddau caeedig peintiedig ac elor i eirch. ANB mynediad ar draws mynwent fawr a chamfa i fynd iddi. CYF [Map](#): arwyddion i'r Beifil ar ddiwedd lôn fach wledig “Dim Ffordd Drwodd”, 6m G o Aberteifi oddi ar y B4582 ger Nyfer.

PEMBROKE DOCK: The Naval Dockyard | DOC PENFRO: Dociau'r Llynges

New in 2009 | Newydd yn 2009

### **Paterchurch Tower**

**5,6 Sep/Medi 11-4** This medieval tower was once the centre of an estate said to stretch from Pennar Point to Cosheston, but is now within the walls of Pembroke Dock. The 3 storey, embattled tower is freestanding and has fine architectural details. [Map](#) Follow the signs for the Hospital and Fort Road. Access door to site in Dockyard Wall. Access limited as narrow spiral staircases leads to each floor.

### **Tŵr Paterchurch**

**5,6 Sep/Medi 11-4** Roedd y twr yma o'r canol oesoedd unwaith yn ganolbwynt ystâd a oedd yn ôl pob sôn, yn ymestyn o Bwynt Pennar i Cosheston, ond sydd nawr o fewn waliau Doc Penfro. Mae'r twr 3 llawr caerog yma yn sefyll ar ei ben ei hun, ac mae ganddo fanylion pensaernïol hyfryd. [Map](#) Dilynwch yr arwyddion am yr Ysbyty a Fort Road. Drws mynediad i'r safle yn Dockyard Wall. Mynediad wedi'i gyfyngu gan fod grisiau cul yn arwain at bob llawr.

### **Market Building**

**5, 6 Sep 11-4** The Market Building was restored under the Pembroke Dock Townscape Heritage Initiative Phase I and II. The Market was built by the Admiralty, at a cost of £4,630/3s/7d, in 1826-27 as an enclosed market square. **LOC** SA72 6XH Follow signs for Irish Ferry terminal. **DIS** Disabled access to ground floor only.

### **Adeilad y Farchnad**

**5, 6 Medi 11-4** Fe ailwampwyd Adeilad y Farchnad o dan Gam I ac II, Menter Treftadaeth Treflun Doc Penfro. Fe adeiladwyd y Farchnad gan y Morlys, am £4,630/3s/7d yn 1826-27 fel sgwâr farchnad gaeedig. Mae lluniau cynnar yn dangos yr adeilad gyda tho slip, ac roedd yr adeilad bryd hynny yn cael ei ddefnyddio fel Cyfnewidfa Yd ac yn ddiweddarach, fel swyddfeydd Cyngor y Dref. Fe brynwyd y farchnad gan y Gorfforaeth yn 1881 ac fe ychwanegwyd y toeau i ddyluniadau gan K W Ladd yn 1884, ond fe fethon nhw yn 1886 ac fe'u hadferwyd gan K Alpin, Peiriannydd y Fwrdeistref. **LLEO** SA72 6XH Dilynwch arwyddion am y terminws Fferi i Iwerddon. **ANB** Mynediad anabl i'r llawr gwaelod yn unig.

### **Sunderland House**

**5, 6 Sep 11-4** The first round of the Townscape Heritage Initiative has produced significant improvements in Pembroke Dock in the restoration of buildings important to the heritage of the town, including the restoration of Sunderland house, an attractive, Grade II listed dockyard office with many original features. **LOC** SA 72 6TD. Follow signs for Irish Ferry terminal. It is the last building on your left before the terminal car park. **DIS** Access to ground floor only

### **Tŷ Sunderland**

**5, 6 Medi 11-4** Mae cyfres gyntaf y Fenter Treftadaeth Tirlun wedi cynhyrchu gwelliannau sylweddol yn Noc Penfro o ran ailwampio adeiladau sy'n bwysig i dreftadaeth y dref, yn cynnwys ailwampio Tŷ Sunderland, swyddfa iard doc deniadol gradd II, sydd â llawer o nodweddion gwreiddiol. Fe adeiladwyd Tŷ Sunderland yn

1822 gan Edward Hall ac fe'i estynnwyd yn yr 1880au yn yr un steil. Hwn oedd yr adeilad swyddfa cyntaf i gael ei adeiladu ar safle'r Hen Iard Doc. **LLEO SA 72 6TD**. Dilynwch arwyddion am y terminws Fferi i Iwerddon. Dyma'r adeilad olaf ar eich chwith cyn maes parcio'r terminws. **ANB** Mynediad i'r llawr gwaelod yn unig.

### **The Garrison Chapel**

**5-6 Sep, 11-4** A Grade II listed building, the Garrison Chapel is thought to be the only Georgian classical chapel to survive in South Wales. The Chapel and grounds have now been completely restored under the Heritage Lottery Funds Pembroke Dock Townscape Heritage Initiative (TH I) and are opening its doors to visitors.

### **Y Capel Garsiwn**

**5-6 Medi, 11-4** Yn adeilad rhestredig Gradd II, credir mai'r Capel Garsiwn yw'r unig gapel clasurol Sioraidd sydd ar ôl yn Ne Cymru. Erbyn hyn, mae'r capel a'r tiroedd wedi cael eu hadfer yn llwyr o dan Fenter Treftadaeth Tirlun Doc Penfro, Cronfa Dreftadaeth y Loteri, ac maen nhw'n agor eu drysau i ymwelwyr.

## **ST DAVIDS**

### **St Eloy, Llandeloy**

#### **(Friends of Friendless Churches)**

**5, 6, 12, 13, 19, 20, 26, 27 September/Medi 9 – 7** Property of the Friends since 2002, a rare example of a surviving Arts and Crafts design by John Coates-Carter. It was rebuilt from fragmentary medieval remains in 1926-7 and is characteristic of the architect's work in its use of indigenous materials and inspirations from the Welsh vernacular. The reredos was painted by the architect. The small, cave-like interior is dominated by the splendid rood-loft, carved screen and simple pulpit. [MAP](#) In heart of village but easily missed; lies behind iron church hall that marks the edge of the churchyard. Access into churchyard (not owned by Friends) through kissing gate. Entrance door may stick.

### **St Eloy, Llandeloy**

#### **(Cyfeillion Eglwysi Di-Gyfeill)**

**5, 6, 12, 13, 19, 20, 26, 27 Medi 9 – 7** Enghraifft brin ar ôl o ddylunio Celf a Chrefft John Coates-Carter, ac yn eiddo'r Cyfeillion ers 2002. Ailadeiladwyd yn 1926-7 o olion canoloesol prin, ac mae'n nodweddiadol o waith y pensaer yn y defnyddiau cynhenid a ddefnyddiwyd a'r ffordd y derbynnir ysbrydoliaeth o bensaerniaeth frodorol. Peintwyd y reredos gan y pensaer. Prif nodwedd y tu fewn ogofaol yw llofft Ysgrin y Grog ysblennydd, yr ysgrin gerfiedig a phulpudd syml. [MAP](#) Yng nghanol y pentref, ond nid yw'n hawdd ei chanfod: tu ôl i neuadd eglwys haearn sy'n nodi ffin y fynwent. Mynediad i'r fynwent (nad yw'n eiddo'r Cyfeillion) trwy giat mochyn. O bosib, bydd drws y fynedfa'n glynu.

## **TENBY/DINBYCH Y PYSGOD**

### **Tudor Merchant's House, Quay Hill**

**12 Sep 11-5** This National Trust property is a late 15C town house characteristic of the old port town. Furnished to recreate family life from the Tudor period onwards. Visit the property to discover how staff and volunteers care for this special house. There are Tudor costumes for children to try on and replica toys to play with.

### **Tŷ'r Masnachwr Tuduraidd, Bryn-y-Cei**

**12 Medi 11-5** Plasty trefol o'r 15G hwyr, sy'n nodweddiadol o'r hen dref porthladd, yw eiddo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yma. Addurnwyd ef i ail-greu bywyd teulu o'r cyfnod Tuduraidd ymlaen. Gellir gweld ceidwad mewn gwisg, yn gwneud teisenni cri yn y simnai Fflandrys enfawr. ANB dim mynediad i gadair olwyn; rhai grisiau. **LLEO** canol Dinbych-ypysgod oddi ar Sgwâr Tudur.